Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheoliadau Ansawdd Aer (Cronfa Ddata Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat) (Cymru a Lloegr) 2019

## Canllawiau statudol

**Gorffennaf 2019**

(h) Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn TaxiandPHVCentralised.Database@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

## Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 4

Statws y canllawiau .......... 4

2. Y gyfraith ar waith .......... 5

Cefndir .......... 5

Y data y bydd angen i awdurdodau trwyddedu eu darparu .......... 8

Y fformat ar gyfer trosglwyddo data .......... 12

Pa mor aml y dylid lanlwytho data .......... 12

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth .......... 12

Apeliadau yn erbyn Hysbysiadau Tâl Cosb .......... 13

Trwyddedau a Ataliwyd .......... 13

3. Llywodraethu data .......... 14

Atodiad A – Manyleb Dechnegol .......... 16

Atodiad B – Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth .......... 27

# 1. Cyflwyniad

## Statws y canllawiau

1.1 Cyhoeddwyd y canllawiau hyn er mwyn helpu awdurdodau trwyddedu lleol i roi Rheoliadau Ansawdd Aer (Cronfa Ddata Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat) (Cymru a Lloegr) 2019[1] (2019 Rhif. 885) (“**y Rheoliadau**”) ar waith.

1.2 Mae'n rhoi cyngor ar y data y mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu eu darparu mewn perthynas â phob cerbyd sy'n gweithredu fel tacsi neu gerbyd hurio preifat a gofrestrwyd gyda'r awdurdod, y fformat i'w trosglwyddo a'r ffordd y dylid eu trin yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

1.3 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio'r data i greu Cronfa Ddata Ganolog o Dacsis a Cherbydau Hurio Preifat (**"y gronfa ddata"**).

1.4 Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adran 88(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995[2]. Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau trwyddedu (y rhai hynny a ddiffinnir yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau) i ystyried y canllawiau hyn fel y nodir o dan adran 88(2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

1.5 Cyfrifoldeb awdurdodau trwyddedu yw sicrhau eu bod wedi cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data wrth gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau. Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllawiau cyffredinol er cymorth ond cynghorir awdurdodau trwyddedu i geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain o ran sut y bydd eu gweithdrefnau'n cydymffurfio â gofynion diogelu data.

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2019/885/made

[2] Gall Gweinidogion Cymru arfer y swyddogaethau o dan adran 88(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn rhinwedd Adran 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw.

# 2. Y gyfraith ar waith

## Cefndir

2.1 Yn 2017, cyhoeddodd y Llywodraeth gynllun ar gyfer y DU i fynd i'r afael â chrynodiadau[3] nitrogen deuocsid ar ochr y ffordd[4], ynghyd ag atodiad yn 2018 "y cynllun"). Nododd y cynllun 61 o awdurdodau lleol yn Lloegr a oedd â gormodiadau, y bu'n ofynnol iddynt gynnal astudiaethau dichonoldeb a, lle y bo angen, ddatblygu cynlluniau penodol i sicrhau bod crynodiadau nitrogen deuocsid ar ochr y ffordd o fewn y terfynau cyfreithiol mewn cyn lleied o amser â phosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud yr un peth gyda dau awdurdod lleol yng Nghymru.

2.2 Bydd gan Barthau Aer Glân rôl allweddol i'w chwarae i gyflawni nifer o'r cynlluniau lleol hyn. Mae'r Fframwaith Parthau Aer Glân[5] yn nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer Parthau Aer Glân a'r hyn y disgwylir i awdurdodau lleol ei wneud wrth gyflwyno a gweithredu'r parthau hyn. Nid yw'n ofynnol i Barthau Aer Glân gynnwys elfen sy'n codi tâl.  Fodd bynnag, lle nad oes unrhyw opsiynau ymarferol eraill i leihau llygredd aer i lefelau a ganiateir yn gyfreithiol mewn cyn lleied o amser â phosibl, efallai y bydd rhai awdurdodau lleol yn penderfynu cyflwyno parthau lle mae'n ofynnol i berchenogion cerbydau dalu i gael mynediad iddynt, neu symud oddi mewn iddynt, os ydynt yn gyrru cerbyd nad yw'n cyrraedd y safon allyriadau ofynnol benodol ar gyfer y math hwnnw o gerbyd yn y parth hwnnw.

Mae'r Fframwaith yn nodi pedwar dosbarth mewn perthynas â Pharthau Aer Glân sy'n codi tâl:

Dosbarth A – Bysiau, coetsys, tacsis a cherbydau hurio preifat

Dosbarth B – Bysiau, coetsys, tacsis, cerbydau hurio preifat a cherbydau nwyddau trwm

---

3 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/634176/air-quality-plan-detail-welsh.pdf

4 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/746100/air-quality-no2-plan-supplement.pdf

5 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/612592/clean-air-zone-framework.pdf

Dosbarth C – Bysiau, coetsys, tacsis, cerbydau hurio preifat, cerbydau nwyddau trwm a cherbydau nwyddau ysgafn

Dosbarth D - Bysiau, coetsys, tacsis, cerbydau hurio preifat, cerbydau nwyddau trwm a cherbydau nwyddau ysgafn, ceir (mae beiciau modur a mopedau yn ddewisol).

Disgwylir i bob math o gerbyd gyrraedd y safonau gofynnol canlynol:

- Euro 4 ar gyfer cerbydau petrol (Euro IV ar gyfer cerbydau mwy o faint)
- Euro 6 ar gyfer cerbydau diesel (Euro VI ar gyfer cerbydau mwy o faint)

Ni chodir tâl ar gerbydau allyriadau isel iawn na cherbydau dim allyriadau am fynd i mewn i Barth Aer Glân na theithio oddi mewn iddo.

2.3 Yn Leeds a Birmingham caiff Parthau Aer Glân sy'n codi tâl eu cyflwyno yn 2020 (dosbarth B a D, yn y drefn honno) Mae nifer o awdurdodau eraill hefyd wedi ymgynghori ar gynlluniau i gyflwyno Parthau Aer Glân sy'n codi tâl. Er mwyn rhoi'r cynlluniau hyn ar waith, efallai y bydd angen i awdurdodau lleol wahaniaethu rhwng tacsis/cerbydau hurio preifat a cherbydau preifat. Y rheswm dros hyn yw y bydd rhai awdurdodau lleol am gyflwyno Parthau Aer Glân sy'n codi tâl ar dacsis a cherbydau hurio preifat ac nid ar gerbydau preifat, neu gyflwyno tâl gwahanol ar gyfer y cerbydau hyn. Dim ond gwybodaeth am dacsis a cherbydau hurio preifat a drwyddedwyd yn eu hardal eu hunain a ddelir gan awdurdodau trwyddedu ac, felly, ni allant nodi na chodi tâl ar dacsi/cerbyd hurio preifat sy'n mynd i mewn i Barth Aer Glân sy'n codi tâl neu'n symud oddi mewn iddo a drwyddedwyd gan awdurdod arall (a elwir hefyd yn 'gerbydau o'r tu allan i'r ardal'). Os na all awdurdodau lleol nodi pob cerbyd o'r tu allan i'r ardal, yna byddai hyn yn tanseilio eu gallu i weithredu Parthau Aer Glân lle y penderfynwyd bod angen codi tâl ar y cerbydau hyn, yn effeithiol.

2.4 Felly, mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod trwyddedu yng Nghymru a Lloegr gyflwyno gwybodaeth benodol am dacsis/cerbydau hurio preifat trwyddedig i'r gronfa ddata. Mae awdurdodau trwyddedu yn gyfrifol am sicrhau bod y data a ddarperir ganddynt yn gywir, yn ddilys ac yn gyfredol.

**Duty to provide taxi and private hire vehicle information**

**3.**—(1) A licensing authority must provide information to the Secretary of State in accordance with this regulation.

(2) The information to be provided is, in relation to every relevant vehicle in respect of which a licence is granted under one of the licensing provisions by that licensing authority—

(a) the vehicle registration mark of the vehicle;

(b) the date from which the licence has effect;

(c) the date on which the licence is due to expire;

(d) a statement as to whether the vehicle is a taxi or a private hire vehicle;

(e) such other information the licensing authority holds in relation to the vehicle that may be relevant for the purposes of ensuring the accurate identification of vehicles, having had regard to any guidance issued by the Secretary of State.

(3) The licensing authority must provide the information at least as frequently as once a week.

(4) For the purposes of this regulation—

“private hire vehicle” means a vehicle licensed under section 48 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 or section 7 of the Private Hire Vehicles (London) Act 1998;

“taxi” means a vehicle licensed under section 6 of the Metropolitan Public Carriage Act 1869 or section 37 of the Town Police Clauses Act 1847;

“vehicle registration mark” means the mark assigned to the vehicle under section 23 of the Vehicle Excise and Registration Act 1994.

**Database containing the information provided under regulation 3**

**4.**—(1) The Secretary of State may create a database of the information received under regulation 3, in accordance with this regulation.

(2) An entry in relation to a relevant vehicle in a database under paragraph (1) must include only—


(a) the name of any licensing authorities with which the relevant vehicle is licensed; and

(b) the information provided under regulation 3 in relation to that vehicle.

## Y data y bydd angen i awdurdodau trwyddedu eu darparu

2.5 Mae'r diagram canlynol yn dangos y broses o lanlwytho data am dacsis a cherbydau hurio preifat ac mae'r tabl yn nodi'r wyth maes data a'r rhesymau pam y mae angen y data. Mae'r gronfa ddata yn rhan o seilwaith digidol ehangach sy'n cael ei ddatblygu i gefnogi'r broses o gyflwyno Parthau Aer Glân sy'n codi tâl.

## Ffigur 1: Diagram llif sy'n dangos y broses o lanlwytho data am dacsis a cherbydau hurio preifat



## Tabl 1: Y data y byddwn yn eu casglu a pham y mae angen y data

| Rhif | Maes Data | Disgrifiad | Rhesymeg |
|---|---|---|---|
| 1 | VRM | Rhif Cofrestru Cerbyd | • Rhif Cofrestru Cerbyd yw'r brif ffordd o baru cerbyd sy'n mynd i mewn i Barth Aer Glân â thrwydded tacsi/cerbyd hurio preifat ac felly nodi a yw'r cerbyd yn dacsi neu'n gerbyd hurio preifat. |
| 2 | Dyddiad Dechrau | Y dyddiad y mae'r drwydded tacsi/cerbyd hurio preifat yn ddilys | • Mae angen dyddiad dechrau er mwyn canfod a yw'r drwydded yn ddilys pan fydd y cerbyd yn mynd i mewn i Barth Aer Glân.<br>• Bydd hyn yn helpu i gefnogi'r broses apeliadau. |
| 3 | Dyddiad Dod i Ben | Dyddiad dod i ben y drwydded tacsi/cerbyd hurio preifat | • Mae angen y dyddiad dod i ben er mwyn nodi a yw'r drwydded yn ddilys pan fydd y cerbyd yn mynd i mewn i Barth Aer Glân.<br>• Bydd hefyd yn cefnogi'r broses apeliadau. |
| 4 | Tacsi neu Gerbyd Hurio Preifat | Maes i ddynodi a yw'r cerbyd yn dacsi neu'n gerbyd hurio preifat, e.e. ‘tacsi’ neu ‘cerbyd hurio preifat’ | • Bydd yn galluogi awdurdodau lleol i bennu eithriadau lleol ar gyfer tacsis neu gerbydau hurio preifat pan fyddant yn cael eu defnyddio fel cerbydau preifat, os byddant yn dymuno gwneud hynny |
| 5 | Enw'r awdurdod trwyddedu | Enw’r awdurdod trwyddedu sy'n cyflwyno | • Mae angen y wybodaeth hon er mwyn olrhain cerbyd yn y Gronfa Ddata Ganolog o Dacsis a Cherbydau Hurio Preifat i'w awdurdod trwyddedu gwreiddiol.<br>• Bydd hyn yn cefnogi'r broses apeliadau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 | Rhif y plât trwydded | Rhif cyfeirnod unigryw y drwydded a roddwyd (gan yr Awdurdod Trwyddedu) i gerbyd, e.e. PCO 1. | • Y rhif cyfeirnod unigryw a ddefnyddir i ganfod a yw tacsi neu gerbyd hurio preifat wedi'i drwyddedu gan awdurdod trwyddedu<br>• Bydd y rhif hwn, ynghyd â'r Rhif Cofrestru Cerbyd, yn helpu i adnabod cerbyd fel rhan o'r broses apeliadau. |
| 7 | Cerbyd sy'n addas i gadeiriau olwyn (baner) | Cerbyd sy'n addas i gadeiriau olwyn | • Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol i gasglu'r wybodaeth hon, yn ymarferol, mae nifer o awdurdodau trwyddedi yn ei chofnodi gan eu bod yn cael eu hannog i gyhoeddi rhestr o gerbydau sy'n addas i gadeiriau olwyn yn unol ag Adran 167 o'r Ddeddf Cydraddoldeb.<br>• Dylai awdurdodau trwyddedu ddarparu baner, lle y bo'n bosibl, er mwyn dangos a yw Tacsi/Cerbyd Hurio Preifat yn Gerbyd yn addas i Gadeiriau Olwyn ai peidio. |

## Y fformat ar gyfer trosglwyddo data

2.6 Bydd dau ryngwyneb y gall awdurdodau trwyddedu eu defnyddio wrth lanlwytho data am dacsis/cerbydau hurio preifat:

• Rhyngwyneb Rhaglennu Ceisiadau (API) - Dylai awdurdodau trwyddedu ei integreiddio’n uniongyrchol i'r system ganolog ac anfon data'n anghydamserol pan fo angen eu diweddaru. Byddem yn disgwyl i awdurdodau trwyddedu anfon y data yn y ffordd hon ac os na allant wneud hynny, yna dylent gynllunio sut y caiff hyn ei gyflawni dros amser. Gwyddom ei bod yn annhebygol y caiff Rhyngwyneb Rhaglennu Ceisiadau cwbl integredig ei gyflawni erbyn diwedd 2019.

• Lanlwytho Gwerthoedd wedi'u Gwahanu gan Goma (CSV) - Darperir ardal ddiogel er mwyn i awdurdodau trwyddedu lanlwytho data. Yna, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ei awdurdodi ei hun (darperir manylion) i gael mynediad i'r parth diogel a lanlwytho ei ddata am dacsis a cherbydau hurio preifat.

2.7 Ceir manyleb dechnegol ddrafft ar gyfer lanlwytho API a CSV yn Atodiad A. Bydd fersiwn derfynol o'r fanyleb dechnegol ar gael yn ddiweddarach yn 2019, cyn i awdurdodau trwyddedu ddechrau lanlwytho data, y disgwylir i hynny ddigwydd o ddechrau mis Hydref.

## Pa mor aml y dylid lanlwytho data

2.8 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddata gael eu lanlwytho o leiaf unwaith yr wythnos. Os gall awdurdodau trwyddedu ddarparu data yn amlach na hyn, yna dylent wneud hynny.

2.9 Caiff ceisiadau i'r API eu cyfyngu i fanylion 20,000 o gerbydau fesul cais. Dylai defnyddwyr sydd am ddarparu data am fwy o gerbydau na hyn gysylltu â thîm y prosiect yn TaxiandPHVCentralised.Database@defra.gov.uk am ragor o wybodaeth.

## Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

2.10 Bydd angen Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (gweler y templed yn Atodiad B) rhwng Defra (fel y rheolydd data) a'r awdurdod trwyddedu cyn y gellir cael unrhyw ddata. Dylai awdurdodau trwyddedu lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'i ddychwelyd i TaxiandPHVCentralised.Database@defra.gov.uk cyn gynted â phosibl.

# Apeliadau yn erbyn Hysbysiadau Tâl Cosb

2.11 Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol sy'n cynnal y Parth Aer Glân sy'n codi tâl yw'r broses apeliadau, a rhaid iddi gael ei rheoli yn unol â Deddf Rheoli Traffig 2004. Gall awdurdod lleol sy'n cyhoeddi Hysbysiad Tâl Cosb gysylltu ag awdurdod trwyddedu mewn perthynas â thacsi neu gerbyd hurio preifat a drwyddedwyd ganddo. Er enghraifft, er mwyn cadarnhau manylion atal trwydded.

# Trwyddedau a Ataliwyd

2.12 Pan gaiff trwydded tacsi neu gerbyd hurio preifat ei hatal, rhaid i awdurdodau trwyddedu sicrhau bod y data a ddarperir i'r gronfa ddata yn gywir, yn ddilys ac yn gyfredol. Mae hyn yn cynnwys dileu cofnodion y cerbydau hynny y mae eu trwyddedau wedi'u hatal neu eu dirymu gan yr awdurdod trwyddedu cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl.

2.10 Yn achos apêl mewn perthynas â Hysbysiad Tâl Cosb, cyfrifoldeb y deiliad cofrestredig yw profi bod y drwydded wedi'i hatal, gan ddefnyddio'r 'hysbysiad atal' a gyhoeddwyd.

# 3. Llywodraethu data

3.1 Cyfrifoldeb awdurdodau trwyddedu yw rhoi gwybod i'r rhai a drwyddedir ganddynt y caiff eu data eu defnyddio. Cyfrifoldeb awdurdodau yw ceisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain er mwyn sicrhau bod eu gweithdrefnau'n cydymffurfio â gofynion diogelu data, gan gynnwys darparu gwybodaeth am brosesu teg i unigolion wrth gasglu eu data personol. Bydd angen i awdurdodau trwyddedu adolygu eu polisïau yn y maes hwn. Gallai hyn gynnwys cyfathrebu'n ysgrifenedig â deiliaid trwyddedau cyfredol a newid ffurflenni cais ar gyfer ymgeiswyr newydd.

3.2 Efallai y bydd awdurdodau trwyddedu am ystyried llunio datganiad sy'n nodi eu polisi. Dylai'r datganiad hwn gynnwys y canlynol (ac unrhyw wybodaeth arall y cred yr awdurdod trwyddedu ei bod yn angenrheidiol) –

- a yw'r wybodaeth am drwyddedeion eisoes ar gael yn gyhoeddus
- a yw gwrthrychau'r data wedi cael gwybod y caiff eu gwybodaeth ei rhannu a sut y gwnaed hynny. Gellid gwneud hynny drwy ychwanegu datganiad at y ffurflen gais neu lunio hysbysiad preifatrwydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/individual-rights/right-to-be-informed/
- datganiad sy'n nodi na chaiff data personol ymgeiswyr eu datgelu ac eithrio mewn amgylchiadau penodol, megis lle bo hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith, e.e. mewn perthynas â rhannu data â'r gronfa ddata
- a yw'r ymgeiswyr wedi cael gwybod sut y caiff eu data eu prosesu o ganlyniad i'w cais am drwydded a'u trwydded barhaus
- dyddiad yr adolygiad diwethaf o ddeddfwriaeth diogelu data a dyddiad arfaethedig yr adolygiad nesaf

## Rheoli data

3.3 Yn unol â'r GDPR, Defra fydd y rheolydd data sy'n gyfrifol am bennu sut y caiff unrhyw ddata personol eu prosesu, ynghyd â'r rheswm dros wneud hynny.

3.4 Er mwyn sicrhau data o ansawdd uchel rhaid i awdurdodau trwyddedu ddilyn y cysyniad rheoli data canlynol, o leiaf, sy'n cynnwys pum pwynt allweddol:

1. Ansawdd Data
    a. Rhaid iddynt sicrhau y caiff yr holl ddata eu casglu mewn ffordd glir a gonest.
    b. Bydd y data a gesglir yn gywir, a chânt eu casglu'n gyfreithlon
2. Preifatrwydd, Diogelwch a Chydymffurfiaeth
    a. Preifatrwydd - Bydd gofynion deddfwriaeth preifatrwydd data y DU yn gymwys i bob agwedd ar y gweithgareddau prosesu data a gwblheir ganddynt
        i. Byddant yn cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (gweler y templed yn Atodiad B)
        ii. Ni chaiff data eu trosglwyddo y tu allan i'r DU

   iii. Caiff y Gyfarwyddeb Gorfodi'r Gyfraith a nodir yn Neddf Diogelu Data 2018 ei defnyddio at ddibenion gorfodi
   iv. Cadw data – caiff data eu cadw am gyfnod o saith mlynedd at ddibenion refeniw. Gellir cadw data cyfanredol ar gyfer gwaith dadansoddi hanesyddol
   v. Ystyr data cyfanredol yw gwybodaeth a gasglwyd ar gyfer adroddiadau misol
   vi. Caiff data cyfanredol hanesyddol eu cadw am gyfnod amhenodol at ddibenion gwyddonol.
   vii. Caiff ceisiadau gwrthrychau data am wybodaeth / rhyddid gwybodaeth eu prosesu gan yr awdurdod trwyddedu ac anfonir y cofnodion i Defra
 b. Diogelwch
   i. Caiff pob cyfrinair gweinyddu ei newid ar ôl ei osod, a bydd yn unigryw i'r awdurdod trwyddedu
   ii. Caiff cyfrineiriau eu hailosod yn unol â safonau'r diwydiant (ISO 27001)
   iii. Cynhelir profion ar gadernid systemau storio data teledu cylch cyfyng o leiaf unwaith y flwyddyn, gan ddefnyddio'r Model Gweithredu Targededig Saernïol
   iv. Bydd y feddalwedd gwrthfeirysau yn gyfredol bob amser
   v. Caiff lefelau defnyddwyr awdurdodedig eu nodi a'u dogfennu
3. Rheoli data meistr
   a. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn dogfennu pob proses sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau. Bydd y prosesau'n cynnwys gofynion hyfforddi, lefelau gweinyddu yn ogystal ag ardystiad gofynnol â'r cynllun Cyber Essentials, gwiriadau DBS ar gyfer staff sy'n gweithio ar y system
   b. Cynhelir hyfforddiant blynyddol ar ddiogelu data ar gyfer pob aelod o'r staff Caiff cofnodion hyfforddiant eu cadw gan bob awdurdod trwyddedu
   c. Cynhelir archwiliad ac adolygiad bob blwyddyn ac anfonir adroddiadau archwilio i dîm diogelu data Defra yn dpo@defra.gov.uk
4. Stiwardiaeth Data
   a. Gall Swyddog Diogelu Data, Rheolwr Diogelu Data ac Arbenigwr Pwnc Diogelu Data Defra roi arweiniad o bryd i'w gilydd
5. Saernïaeth data
   a. Caiff pob caledwedd newydd ei diweddaru yn unol â gofynion y gwneuthurwr
   b. Ni fydd patshys meddalwedd fwy nag un fersiwn y tu ôl i'r fersiwn ddiweddaraf

# Atodiad A – Manyleb Dechnegol

# 1. Cynnal a Chadw Data'r Gronfa Ddata Ganolog o Dacsis a Cherbydau Hurio Preifat

## 1.1 Manyleb y Rhyngwyneb

### Trosolwg

**Enw:** Cynnal a Chadw Data'r Gronfa Ddata Ganolog o Dacsis a Cherbydau Hurio Preifat (API) – data POST

**Disgrifiad:** Drwy ddefnyddio'r rhyngwyneb hwn gellir integreiddio prosesau a systemau busnes awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Parthau Aer Glân, drwy RESTful API, er mwyn galluogi awdurdodau trwyddedu i ddarparu manylion am dacsis a cherbydau hurio preifat trwyddedig a ddelir yn y Gronfa Ddata Ganolog o Dacsis a Cherbydau Hurio Preifat – mae'r gronfa ddata hon yn cynnwys gwybodaeth benodol am dacsis a cherbydau hurio preifat trwyddedig yng Nghymru a Lloegr.

**Cyhoeddwr:** Uned Ansawdd Aer ar y Cyd

Defnyddiwr: Awdurdodau Trwyddedu Tacsis/Cerbydau Hurio Preifat a'u Gwerthwr TG/Meddalwedd (lle mae'r contractau hyn yn bodoli)

**Math o ryngwyneb:** RESTful API

**Protocol:** HTTPS

**URL Prawf:** I'w gadarnhau

**URL Cyn Cynhyrchu:** I'w gadarnhau

**URL Cynhyrchu:** I'w gadarnhau

**Dosbarthiad Diogelwch:** SWYDDOGOL

**Dilysu:** Fframwaith OAuth 2.0

**Noder:** Caiff URLs ar gyfer gwasanaethau awdurdodi amgylchedd Prawf, Cyn Cynhyrchu a Chynhyrchu eu cyflenwi maes o law.

**Math o gynnwys:** cymhwysiad/json

**Amgodio cynnwys:** UTF-8

## Dulliau

**Enw:** POST

**Disgrifiad:** Drwy'r dull POST gellir cyflwyno ceisiadau sy'n galluogi awdurdodau trwyddedu i gynnal manylion am dacsis a cherbydau hurio preifat trwyddedig a ddelir yn y Gronfa Ddata Ganolog o Dacsis a Cherbydau Hurio Preifat.

**Math(au) o ddata mewnbwn:** JSON

**Strwythur y data mewnbwn:**

### Paramedrau'r Pennawd

| Enw'r Maes | Math o Ddata | Isafswm Maint | Uchafswm Maint | Gofynnol/ Dewisol | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| x-api-key | Llinyn | | | Gofynnol | Allwedd API a ddefnyddiwyd i adnabod y galwr. |
| X-Correlation-ID | Llinyn | 40 | 40 | Gofynnol | Llinyn wedi'i fformatio'n unol ag UUID er mwyn olrhain y cais drwy'r ymholiadau. |
| Authorization | Llinyn | - | - | Gofynnol | Tocyn awdurdodi OAuth 2.0 |
| timestamp | Llinyn | 15 | 25 | Gofynnol | Llinyn dyddiad-amser wedi'i fformatio'n unol ag ISO 8601 sy'n dangos yr amser y cafodd y cais ei wneud |

### Paramedrau Corff y Data

| Enw'r Maes | Math o Ddata | Isafswm Maint | Uchafswm Maint | Gofynnol/ Dewisol | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| vehicleDetails | Aráe gwrthrychau | 1 | Dd/G | Gofynnol | Aráe yn cynnwys manylion cerbydau/gwrthrychau |
| vrm | Llinyn | 1 | 7 | Gofynnol | Llinyn yn cynnwys y Rhif Cofrestru Cerbyd heb flychau |
| start | Llinyn | 8 | 10 | Gofynnol | Llinyn dyddiad wedi'i fformatio'n unol ag ISO 8601 sy'n dangos y dyddiad y mae'r drwydded yn ddilys |
| end | Llinyn | 8 | 10 | Gofynnol | Llinyn dyddiad wedi'i fformatio'n unol ag ISO 8601 sy'n dangos y dyddiad y mae'r drwydded yn ddilys |
| taxiOrPHV | Llinyn – cyfrif | 3 | 4 | Gofynnol | Llinyn i ddangos a yw'r cerbyd yn dacsi neu'n gerbyd hurio preifat. Rhaid iddo fod yn dacsi neu'n gerbyd hurio preifat. |
| licensingAuthor | Llinyn | 1 | 50 | Gofynnol | Llinyn yn cynnwys enw'r Awdurdod Trwyddedu sy'n |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ityName | | | | | cyflwyno |
| licensePlateNumber | Llinyn | 1 | 50 | Gofynnol | Llinyn yn cynnwys y rhif cyfeirnod unigryw a roddwyd (gan yr Awdurdod Trwyddedu) i gerbyd. |
| wheelchairAccessibleVehicle | Data Booleaidd | - | - | Dewisol | Data Booleaidd i ddangos a yw'r cerbyd yn addas i gadeiriau olwyn ai peidio |

## Enghraifft o Gais

```
{
  "vehicleDetails": [
    {
      "vrm": "BD51SMR",
      "start": "2019-02-27",
      "end": "2019-03-01",
      "taxiOrPHV": "PHV",
      "licensingAuthorityName": "Leeds",
      "licensePlateNumber": "PCO 1",
      "wheelchairAccessibleVehicle": false
    },
    {
      "vrm": "BD51UAT",
      "start": "2019-01-02",
      "end": "2019-01-03",
      "taxiOrPHV": "taxi",
      "licensingAuthorityName": "Leeds",
      "licensePlateNumber": "PCO 7",
      "wheelchairAccessibleVehicle": true
    }
  ]

}
```

**Cwmpas y data mewnbwn:** Wrth ddefnyddio'r API hwn, rhaid i gorff y cais gynnwys manylion **pob** tacsi a/neu gerbyd hurio preifat sydd wedi'i drwyddedu gan yr Awdurdod Trwyddedu ar hyn o bryd. **Dim ond** manylion y tacsis a/neu'r cerbydau hurio preifat hynny a gafodd eu hychwanegu neu eu newid ers y diweddariad diwethaf y dylai Awdurdodau Trwyddedu eu darparu.

Caiff ceisiadau i'r API eu cyfyngu i fanylion 20,000 o gerbydau fesul cais. Dylai defnyddwyr sydd am ddarparu data am fwy o gerbydau na hyn gysylltu â thîm y prosiect yn TaxiandPHVCentralised.Database@defra.gov.uk am ragor o wybodaeth.

**Math o ddata allbwn:** JSON

**Strwythur y data allbwn:**

## Paramedrau'r Ymateb

| Enw'r Maes | Math o Ddata | Isafswm Maint | Uchafswm Maint | Gofynnol/ Dewisol | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| detail | Llinyn | - | - | - | Llinyn yn cynnwys manylion yr ymateb llwyddiannus |

### Enghraifft o Brif Lwyth Ymateb 201 (a Grëwyd)

```
{
  "detail": "Register updated successfully."
}
```

### Enghraifft o Brif Lwyth Ymateb Gwall

```
{
  "errors": [
    {
      "status": 400,
      "vrm": "",
      "title": "Mandatory field missing",
     "detail": "Vehicle at position 19 does not include the vrm
     field which is mandatory"
    },
    {
      "status": 400,
      "vrm": "BD51UAT",
      "title": "Value error",
      "detail": "startDate must be before endDate"
    }
  ]

}
```

**Codau gwall:**

| Cod HTTP | Manylion y Neges Gwall |
|---|---|
| 500 | Caiff neges gwall y system ei phoblogi |
| 503 | Nid yw'r gwasanaeth ar gael |
| 400 | Cais gwael |
| 401 | Heb ei awdurdodi |
| 405 | Ni chaniateir y dull |
| 422 | Endid na ellir ei brosesu |

| | |
|---|---|
| 429 | Gormod o geisiadau |

**Sgema:** I'w gadarnhau

## 1.2 Ansawdd y Gwasanaeth

| Eitem | Gwerth |
|---|---|
| Cytundeb Lefel Gwasanaeth | I'w gadarnhau |
| Nifer gyfartalog y trafodion yr eiliad | I'w gadarnhau |
| Nifer fwyaf y trafodion yr eiliad | I'w gadarnhau |
| Dosbarthiad Amlder | I'w gadarnhau |
| Maint Cyfartalog (KB) | I'w gadarnhau |
| Maint Mwyaf (KB) | I'w gadarnhau |
| Dosbarthiad Maint | I'w gadarnhau |
| Amser Ymateb | I'w gadarnhau |
| Terfyn Cyfradd | I'w gadarnhau |

## 1.3 Monitro, Archwilio a Pheidio â Gwrthod

| Eitem | Gwerth |
|---|---|
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Archwilio | I'w gadarnhau |
| Peidio â Gwrthod | Defnyddir nodweddion OAuth 2.0 ar y cyd â phenynnau X-Correlation-ID i adnabod y defnydd o API at ddibenion peidio â gwrthod. |

# 2. Cynnal a Chadw Data'r Gronfa Ddata Ganolog o Dacsis a Cherbydau Hurio Preifat

## 2.1 Manyleb y Rhyngwyneb

### Trosolwg

**Enw:** Cronfa Ddata Ganolog o Dacsis a Cherbydau Hurio Preifat – Cynnal a Chadw Data

**Disgrifiad:** Drwy ddefnyddio'r rhyngwyneb hwn gellir integreiddio prosesau a systemau busnes awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Parth Aer Glân, drwy ffeil CSV a lanlwythir i gwmwl ffeiliau diogel, er mwyn galluogi awdurdodau trwyddedu i ddarparu manylion tacsis a cherbydau hurio preifat a ddelir yn y Gronfa Ddata Ganolog o Dacsis a Cherbydau Hurio Preifat – mae'r gronfa ddata hon yn cynnwys gwybodaeth benodol am dacsis a cherbydau hurio preifat trwyddedig yng Nghymru a Lloegr.

**Cyhoeddwr:** Uned Ansawdd Aer ar y Cyd

**Defnyddwyr:** Awdurdodau Trwyddedu Tacsis/Cerbydau Hurio Preifat a'u Gwerthwr TG/Meddalwedd (lle mae'r contractau hyn yn bodoli)

**Math o ryngwyneb:** Trosglwyddo ffeiliau (CSV)

**Protocol:** HTTPS (ffeil CSV wedi'i lanlwytho i gwmwl rhannu ffeiliau diogel)

**URL Prawf:** I'w gadarnhau

**URL Cyn Cynhyrchu:** I'w gadarnhau

**URL Cynhyrchu:** I'w gadarnhau

**Dosbarthiad Diogelwch:** SWYDDOGOL

**Dilysu:** Enw defnyddiwr a chyfrinair (i'w cadarnhau)

**Math o gynnwys:** Ffeil Gwerthoedd wedi'u Gwahanu gan Goma (CSV)

**Amgodio cynnwys:** ASCII

### Dulliau

#### Lanlwytho Ffeil

**Enw:** Dd/G

**Disgrifiad:** Mae'r rhyngwyneb hwn yn golygu bod modd integreiddio prosesau a systemau busnes awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Parth Aer Glân, drwy ffeil CSV a lanlwythir i gwmwl ffeiliau diogel, er mwyn galluogi awdurdodau trwyddedu i ddarparu manylion tacsis a cherbydau hurio preifat a ddelir yn y Gronfa Ddata Ganolog o Dacsis a Cherbydau Hurio Preifat – mae'r gronfa ddata hon yn cynnwys gwybodaeth benodol am dacsis a cherbydau hurio preifat trwyddedig yng Nghymru a Lloegr.

**Math(au) o ddata mewnbwn:** Ffeil (CSV)

**Enwi Ffeil:**

`CAZ-yyyy-mm-dd-XXXX-#.csv`

lle mae:

- *yyyy-mm-dd* yn cynrychioli'r dyddiad y cafodd y ffeil ei chreu
- *XXXX* yn cynrychioli'r dynodydd y cytunwyd arno ar gyfer pob Awdurdod Trwyddedu (i'w gadarnhau)
- # yn cynrychioli cyfanswm nifer y cofnodion yn y ffeil.

Enghraifft:

*`CAZ-2019-06-18-AuthorityID-4242.csv`*

**Strwythur y data mewnbwn:**

**Paramedrau Corff y Data**

| Enw'r Maes | Math o Ddata | Isafswm Maint | Uchafswm Maint | Gofynnol/ Dewisol | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| vrm | Llinyn | 1 | 7 | Gorfodol | Llinyn yn cynnwys y Rhif Cofrestru Cerbyd heb flychau |
| start | Llinyn | 8 | 10 | Gorfodol | Llinyn dyddiad wedi'i fformatio'n unol ag ISO 8601 sy'n dangos y dyddiad y mae'r drwydded yn ddilys |
| end | Llinyn | 8 | 10 | Gorfodol | Llinyn dyddiad wedi'i fformatio'n unol ag ISO 8601 sy'n dangos y dyddiad y mae'r drwydded yn ddilys |
| taxi_or_phv | Llinyn – cyfrif | 3 | 4 | Gorfodol | Llinyn i ddangos a yw'r cerbyd yn dacsi neu'n gerbyd hurio preifat. Rhaid nodi naill ai 'taxi' neu 'phv'. |
| licensing_authority_name | Llinyn | 1 | 50 | Gorfodol | Llinyn yn cynnwys enw'r Awdurdod Trwyddedu sy'n cyflwyno |
| license_plate_number | Llinyn | 1 | 15 | Gorfodol | Llinyn yn cynnwys y rhif cyfeirnod unigryw a roddwyd (gan yr Awdurdod Trwyddedu) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | i gerbyd. |
| wheelchair_accessible_vehicle | Data Booleaidd | 4 | 5 | Dewisol | Data Booleaidd i ddangos a yw'r cerbyd yn addas i gadeiriau olwyn ai peidio. Rhaid nodi naill ai 'true' neu 'false' |

**Confensiynau fformatio data mewnbwn:**

- Caiff y cofnodion eu darparu mewn fformat gwerthoedd wedi'u gwahanu gan goma.
- Nid oes rhes pennyn.
- Nid oes rhes ddilynol.
- Nid oes unrhyw goma dilynol ar gyfer y maes diwethaf
- Mae pob nod yn cydymffurfio â'r 'nodau a dderbynnir' isod
- Nid oes unrhyw faes sy'n cynnwys nod llinell newydd
- Rhaid defnyddio dyfynodau dwbl pan fo maes yn cynnwys coma neu ddyfynnod dwbl ("…")
- Rhaid defnyddio dyfynnod dwbl ar ddiwedd dyfynnod dwbl sy'n rhan o faes (h.y. daw un " mewn maes yn "")
- Ni ddylid defnyddio unrhyw fylchau rhwng gwerthoedd maes a chomas gwahanu
- Ni ddylid llenwi maes oni bai bod bwlch cyn neu ar ôl nod yn rhan ddilys o werth y maes
- Caiff pob cofnod ei wahanu gan linell newydd (dychwelwr ASCII)
- Caiff meysydd dewisol heb unrhyw werthoedd eu gwahanu gan goma.

## Nodau a Dderbynnir

Dim ond y nodau canlynol y gellir eu cynnwys yn y ffeil CSV:

- Y llythrennau A i Z (mewn priflythrennau)
- Y llythrennau A i Z (llythrennau bach)
- Y rhifau 0 i 9
- Gofod a '( ) *,. / % ! + - : ; = ? @ [ ] ^ _ { } ~
- Rhaid i nodau ampersand (&) a chollnod (') fod mewn fformat dianc.

Ni chaniateir nodau punt (£), doler ($) na hash (#).

Cwmpas y data mewnbwn: Rhaid i bob ffeil CSV gynnwys manylion **pob** tacsi a/neu gerbyd hurio preifat sydd wedi'i drwyddedu gan yr Awdurdod Trwyddedu ar hyn o bryd.

**Ni** ddylai Awdurdodau Trwyddedu OND darparu ffeil CSV sy'n cynnwys y tacsis a/neu'r cerbydau hurio preifat hynny a gafodd eu hychwanegu neu eu newid ers y diweddariad diwethaf.

Math o ddata allbwn: Arall (rhowch fanylion)

Anfonir negeseuon e-bost hysbysu at gyfeiriadau e-bost penodol er mwyn rhoi gwybod i Awdurdod Trwyddedu a yw'r Gronfa Ddata Ganolog o Dacsis a Cherbydau Hurio Preifat wedi cael ei diweddaru'n llwyddiannus, neu a fu gwall (e.e. am nad yw'r ffeil CSV a ddarparwyd yn cydymffurfio â manyleb y rhyngwyneb). Anfonir neges e-bost hysbysu yn yr achosion canlynol.

| Achos | Disgrifiad | Teitl yr E-bost | Cynnwys Negeseuon E-bost |
|---|---|---|---|
| Cyflwyniad wedi'i dderbyn | Os caiff ffeil ei chyflwyno a'i derbyn, anfonir neges e-bost yn dangos ei bod wedi'i chyflwyno'n llwyddiannus. | Cyflwyniad wedi'i dderbyn i'r Gofrestr Tacsis Genedlaethol <filename> | Mae <filename> wedi'i derbyn ac mae'r Gofrestr Tacsis Genedlaethol wedi cael ei diweddaru. |
| Cyflwyniad wedi'i wrthod – teitl annilys | Os bu gwall gydag enw ffeil y cyflwyniad, caiff neges e-bost ei hanfon yn dweud bod y cyflwyniad wedi'i dderbyn ac wedi'i wrthod, y mae ei gynnwys yn gyfrifol am y gwall. Ni chaiff y cofnodion eu diweddaru. | Cyflwyniad i'r Gofrestr Tacsis Genedlaethol wedi'i wrthod <filename> | Roedd <number_of_errors> yn <filename>.<br><br>Gwrthodwyd y cyflwyniad.<br><br>Mae'r gwallau fel a ganlyn:<br><br><errors> |
| Cyflwyniad wedi'i wrthod - data annilys | Os canfyddir unrhyw wallau yn y data, caiff neges e-bost ei hanfon yn nodi bod y ffeil CSV wedi'i derbyn a'i gwrthod. Ni chaiff y cofnodion eu diweddaru. | Cyflwyniad i'r Gofrestr Tacsis Genedlaethol wedi'i wrthod <filename> | Roedd <number_of_errors> yn <filename>.<br><br>Gwrthodwyd y cyflwyniad.<br><br>Mae'r gwallau fel a ganlyn: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | <errors_by_vrm> |
| Ni ellir prosesu'r cyflwyniad – Gwall yn y system fewnol | Os canfyddir gwall wrth brosesu'r cyflwyniad, caiff neges e-bost ei hanfon yn nodi y canfuwyd gwall yn y system fewnol, a oedd yn atal y cyflwyniad rhag cael ei dderbyn. | Gwall mewnol yn y Gofrestr Tacsis Genedlaethol <filename> | Canfuwyd gwall yn y system fewnol wrth brosesu <filename>.<br><br>Mae'r gwall wedi'i gofnodi.<br><br>Nid yw'r cyflwyniad wedi'i dderbyn. |
| Ni ellir prosesu cyflwyniad – Nid yw'r gwasanaeth ar gael. | Os na fydd y gwasanaeth ar gael pan fydd cyflwyniad yn cael ei wneud, caiff neges e-bost ei hanfon yn nodi na all y gwasanaeth ddelio â cheisiadau, a oedd yn atal y cyflwyniad rhag cael ei dderbyn. | Nid yw gwasanaeth y Gofrestr Tacsis Genedlaethol ar gael <filename> | Nid yw gwasanaeth y Gofrestr Tacsis Genedlaethol ar gael ar hyn o bryd.<br><br>Ni ellir derbyn <filename> ar hyn o bryd. |

**Strwythur y data allbwn:** Dd/G

**Codau gwall:**

| errorMessage.message |
|---|
| Gwall mewnol yn y Gofrestr Tacsis Genedlaethol |
| Cyflwyniad i'r Gofrestr Tacsis Genedlaethol wedi'i wrthod |
| Nid yw gwasanaeth y Gofrestr Tacsis Genedlaethol ar gael |

**Sgema:** Dd/G

## 2.2 Ansawdd y Gwasanaeth

| Eitem | Gwerth |
|---|---|
| Cytundeb Lefel Gwasanaeth | I'w gadarnhau |
| Nifer gyfartalog y trafodion yr eiliad | I'w gadarnhau |
| Nifer fwyaf y trafodion yr eiliad | I'w gadarnhau |
| Dosbarthiad Amlder | I'w gadarnhau |
| Maint Cyfartalog (KB) | I'w gadarnhau |
| Maint Mwyaf (KB) | I'w gadarnhau |
| Dosbarthiad Maint | I'w gadarnhau |
| Amser Ymateb | I'w gadarnhau |
| Terfyn Cyfradd | I'w gadarnhau |

## 2.3 Monitro, Archwilio a Pheidio â Gwrthod

| Eitem | Gwerth |
|---|---|
| Monitro | I'w gadarnhau |
| Archwilio | I'w gadarnhau |
| Peidio â Gwrthod | Defnyddir cyfuniad o'r canlynol: (1) enw ffeil y ffeil CSV; a, (2) manylion y defnyddiwr a ddilyswyd a lanlwythodd y ffeil CSV, i adnabod pob ffeil CSV a lanlwythwyd at ddibenion peidio â gwrthod. |

# Atodiad B – Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

**MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH**

**Rhwng:**

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)

**A**

**[Enw'r awdurdod trwyddedu]**

**Mewn perthynas â:**

**Darparu data trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Ansawdd Aer (Cronfa Ddata Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat) (Cymru a Lloegr) 2019**

---

**DIFFINIADAU**

**Deddfwriaeth Diogelu Data**: y GDPR, y Gyfarwyddeb Gorfodi'r Gyfraith, Deddf Diogelu Data 2018 ac unrhyw Gyfreithiau gweithredu cymwys cenedlaethol fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd, a phob Cyfraith gymwys am brosesu data personol a phreifatrwydd;

mae i **Reolydd, Prosesydd, Prosesu Gwrthrych Data, Data Personol, Categorïau Data Personol Arbennig, Torri Rheolau Data Personol, Swyddog Diogelu Data** yr ystyr a roddir yn y GDPR.

**Digwyddiad Colli Data**: unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain, neu a all arwain, at fynediad heb awdurdod i Ddata Personol a ddelir gan y naill barti a'r llall o dan y Memorandwm

Cyd-ddealltwriaeth, a/neu achos gwirioneddol neu bosibl o golli a/neu ddinistrio Data Personol sy'n groes i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, gan gynnwys unrhyw achos o Dorri Rheolau Data Personol.

**Cais gan Wrthrych Data am Wybodaeth**: cais a wneir gan neu ar ran Gwrthrych Data yn unol â hawliau a roddwyd o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data i gael mynediad at ei Ddata Personol.

**DPA 2018**: Deddf Diogelu Data 2018

**GDPR**: Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (*Rheoliad (UE) 2016/679*)

**LED**: Cyfarwyddeb Gorfodi'r Gyfraith (*Cyfarwyddeb (UE) 2016/680*)

**Mesurau Diogelu**: mesurau technegol a sefydliadol priodol a all gynnwys: gosod ffugenwau ar Ddata Personol neu eu hamgryptio, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a chydnerthedd systemau a gwasanaethau, sicrhau bod modd cael gafael ar Ddata Personol yn amserol ar ôl digwyddiad ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y cyfryw fesurau a fabwysiedir ganddo yn rheolaidd.

**Is-brosesydd**: unrhyw drydydd Parti a benodir i brosesu Data Personol ar ran y Contractwr mewn perthynas â'r Cytundeb Fframwaith hwn.

**Awdurdod Trwyddedu:** yr awdurdod trwyddedu sy'n rhan o'r cytundeb hwn, [INSERT NAME OF LICENSING AUTHORITY]

**Rheoliadau Ansawdd Aer:** Rheoliadau Ansawdd Aer (Cronfa Ddata Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat) (Cymru a Lloegr) 2019

## 1. Partïon sy'n rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn

1.1. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Awdurdod Trwyddedu yw'r partïon sy'n rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

## 2. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn

2.1. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw egluro sut y bydd y Partïon yn cyflawni eu priod rwymedigaethau o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data mewn perthynas â phrosesu Data Personol fel sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion y Rheoliadau Ansawdd Aer. Mae'n egluro sut y bydd y partïon yn cydweithio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

## 3. Disgrifiad o'r Data a'r ffordd y cânt eu rhannu

3.1. Mae'r Rheoliadau Ansawdd Aer yn pennu'r data y mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu eu rhannu â Defra – y Data

3.2. Mae'r Rheoliadau Ansawdd Aer yn pennu'r gofynion sylfaenol o ran pa mor aml y dylid rhannu'r Data â Defra. Dylid rhannu'r Data â Defra o leiaf unwaith yr wythnos yn ogystal ag ar gais at ddibenion datblygu a phrofi'r gronfa ddata.

3.3. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhannu'r Data â Defra gan ddefnyddio naill ai API neu lanlwytho CSV. Wrth rannu'r data, bydd y naill barti a'r llall yn cydymffurfio â'r trefniadau diogelwch a ddisgrifir yng nghymal 9.

## 4. Sail gyfreithiol yr Awdurdod Trwyddedu o dan y GDPR dros rannu'r Data â Defra

4.1. Mae Erthygl 6.1(e) o'r GDPR yn cyfreithloni gwaith prosesu data personol sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolydd yn ddarostyngedig iddi.

4.2. Mae'r Awdurdod Trwyddedu, fel Rheolydd, yn ddarostyngedig i rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu'r Data i Defra, ac felly caiff unrhyw waith prosesu sy'n angenrheidiol i ddarparu'r Data ei gyfreithloni gan Erthygl 6)1)(e).

## 5. Atebolrwydd

5.1. Mae Defra yn Rheolydd ar wahân ar gyfer y Data ar ôl i'r Awdurdod Trwyddedu eu trosglwyddo, ac, fel Rheolydd, mae'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data mewn perthynas â phrosesu'r Data ymhellach.

## 6. Tegwch a Thryloywder

6.1. Bydd y ddau barti yn darparu hysbysiadau preifatrwydd priodol i wrthrychau'r data, yn unol â gofynion y GDPR a'r holl ganllawiau arfer da perthnasol a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn benodol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn hysbysu gwrthrychau'r data ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i Awdurdodau Trwyddedu rannu'r Data â Defra fel y gall Defra greu cronfa ddata i gefnogi'r gwaith awdurdodau lleol o gynnal parthau aer glân sy'n codi tâl neu gynlluniau ansawdd aer eraill.

## 7. Cywirdeb Data a Rennir

7.1. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Data yn gywir ac yn gyfredol cyn iddynt gael eu trosglwyddo i Defra. Os daw'r Awdurdod Trwyddedu yn ymwybodol o wallau yn y Data ar ôl iddynt gael eu trosglwyddo i Defra, bydd yn hysbysu Defra am yr anghywirdebau hynny o fewn un diwrnod gwaith i'w canfod a bydd y partïon yn cytuno ar gynllun unioni addas.

7.2. Bydd Defra yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Data yn parhau'n gywir ac yn gyfredol, ac yn hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu os daw'n ymwybodol o unrhyw anghywirdebau sylweddol.

**8. Cadw Data a Rennir**

8.1. Bydd Defra yn cadw'r Data am gyfnod o hyd at saith mlynedd at ddibenion refeniw o'r dyddiad y cânt eu trosglwyddo gan yr Awdurdod Trwyddedu, yn amodol ar unrhyw eithriadau perthnasol o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Gellir cadw data cyfanredol ar gyfer gwaith dadansoddi hanesyddol. Ystyr data cyfanredol yw gwybodaeth a gasglwyd ar gyfer adroddiadau misol. Caiff data cyfanredol hanesyddol eu cadw am gyfnod amhenodol at ddibenion gwyddonol.

8.2. Ar ddiwedd y cyfnod cadw, bydd Defra yn trefnu i'r Data gael eu dinistrio neu eu dileu'n ddiogel, yn unol â chymal 12.

**9. Diogelwch Data**

9.1. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn sicrhau y caiff y Data eu trosglwyddo’n ddiogel i Defra, yn unol â gofynion diogelwch Deddfwriaeth Diogelwch Dara ac arfer da'r diwydiant.

9.2. Bydd Defra yn sicrhau bod y ffordd y mae'n Prosesu'r Data yn bodloni gofynion Deddfwriaeth Diogelu Data a Fframwaith Polisi Diogelwch Llywodraeth EM. Bydd yr un gofynion hyn yn gymwys i ddefnydd Defra o unrhyw Brosesydd.

**10. Hawliau gwrthrychau'r data**

10.1. Bydd pob parti yn ymateb i unrhyw gais gan wrthrych data am wybodaeth mewn perthynas â'r Data a brosesir ganddo fel Rheolydd, yn unol â'i rwymedigaethau o dan y GDPR.

**11. Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth.**

11.1. Bydd pob parti yn ymateb i unrhyw gais rhyddid gwybodaeth a wneir iddo am wybodaeth ynghylch y canlynol: y Data y mae'n Rheolydd mewn perthynas â nhw; y Rheoliadau Ansawdd Aer; neu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

11.2. Bydd y parti sy'n derbyn y cais yn ymgynghori â'r parti arall lle y gallai datgelu gwybodaeth effeithio ar fuddiannau'r parti arall.

11.3. Bydd y parti sydd wedi derbyn y cais yn ystyried barn y parti arall cyn penderfynu p'un a ddylid datgelu'r wybodaeth ai peidio. Yn benodol, bydd yn gwneud y canlynol:

11.4. Caniatáu o leiaf bum diwrnod gwaith i'r parti arall ymateb i'r ymgynghoriad;

11.5. Peidio â datgelu unrhyw ddata personol a fyddai'n torri deddfwriaeth Diogelu Data;

11.6. Peidio â datgelu gwybodaeth a fyddai'n effeithio naill ai ar ddiogelwch y Data neu drefniadau diogelwch y parti arall.

## 12. Archwilio ac Arolygu

12.1. Ceidw Defra yr hawl i gynnal adolygiad o gydymffurfiaeth yr Awdurdod Trwyddedu â thelerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, ac mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cytuno i gydweithredu'n llawn ag unrhyw adolygiad o'r fath. Bydd Defra yn rhoi 28 diwrnod o rybudd o adolygiad o'r fath.

12.2. Bydd Defra yn hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am ganlyniad unrhyw archwiliadau neu adolygiadau a gynhaliwyd mewn perthynas â'i weithgareddau fel Rheolydd, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r gwaith o brosesu'r Data a gafwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu.

12.3. Bydd Defra yn hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw archwiliadau neu adolygiadau a gynhaliwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r gwaith o brosesu'r Data a gafwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu.

## 13. Digwyddiad Colli Data

13.1. O ran Data a gafwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu, bydd Defra (dpo@defra.gov.uk <mailto:dpo@defra.gov.uk>) yn hysbysu’r Awdurdod Trwyddedu ar unwaith am unrhyw Ddigwyddiad Colli Data difrifol sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu Wrthrychau'r Data dan sylw. Caiff hysbysiadau o'r fath eu gwneud i'r enw cyswllt a enwebwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu. Rhoddir gwybod am ddigwyddiadau llai difrifol bob mis.

## 14. Cytundeb a llofnodwyr

14.1. Bydd y partïon yn adolygu telerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn bob blwyddyn, neu'n gynt os oes angen adlewyrchu newid perthnasol i unrhyw un o ddarpariaethau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

14.2. Mae'r partïon yn ymrwymo i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn gyda'r bwriad o gadw at ei ddarpariaethau ond nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn gyfystyr â chontract cyfreithiol rwymol ac nid yw'n effeithio ar rwymedigaethau pob parti o dan y ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

Llofnodwyd ar ran:

| | |
|---|---|
| Defra | Enw'r awdurdod trwyddedu |
| ………………………………… | ………………………………………… |
| [Enw a swydd] | [Enw a swydd] |
| Dyddiad ……………………………………. | Dyddiad …………………………………….. |